YSGOL GYMRAEG

CADW IAITH CADW GWLAD


BRYN Y MÔR

Tymor y Hydref 2024 – Dosbarth Yr Wylan

# Bant â ni i gynllunio!

Ein bwriad yn yr uned ddysgu hon yw datblygu ymdeimlad o le ac o berthyn. Anelwn at ddatblygu dysgwyr creadigol, chwilfrydig ac ymholgar sy'n medru meddwl yn feirniadol. Gobeithiwn ddatblygu dealltwriaeth o'r amrywiaeth o fewn cymdeithas er mwyn meithrin dysgwyr gwybodus sy'n medru dangos empathi a pharch tuag at eraill. Trwy feithrin eu sgiliau creadigol , anelwn at ddatblygu dysgwyr uchelgeisiol a fydd yn teimlo balchder yn eu gwaith ac yn gwerthfawrogi cyflawniadau eraill. Erbyn diwedd yr uned ddysgu, hyderwn y bydd ein dysgwyr yn ddinasyddion cyfrifol a gwybodus, ac yn teimlo balchder a gwerthfawrogiad o'u cynefin.

*Hoffwn i gael cornel chwarae hufen iâ Joe's! Ffion W*




*Hoffwn i ddysgu am bobl enwog o Abertawe.*

*Iaan*

*Hoffwn i fynd ar daith i'r parc, i'r traeth a pharlwr hufen ia Joe's.*

*Georgia*

*Rydw i eisiau peintio lluniau o Abertawe.*

*Miriam*

*Gwahodd ymwelwyr i siarad am Abertawe.*

*Alys*

YSGOL GYMRAEG
CADW IAITH CADW GWLAD
BRYN Y MÔR

# Tymor y Hydref 2024 – Dosbarth Yr Wylan

## Abertawe Anhygoel!

Dyma ein syniadau ar gyfer y tymor!

**Ymweliadau:** Taith ar y 'Copper Jack,' Parc Brynmill, Addoldai lleol, Oriel gelf y Glynn Vivian.
**Cywaith Clo:** Creu oriel gelf i arddangos ein campweithiau.

**Y Celfyddydau Mynegiannol**

- Astudio gwaith yr artist lleol, Sarah Hopkins.
- Mwynhau datblygu ein sgiliau darlunio a phrintio i greu efelychiadau o waith artist lleol.
- Creu cyflwyniadau a ffilmiau byrion o bob math, gan gynnwys hysbysebion.
- Mwynhau canu ystod o ganeuon yn ymwneud â gwaith y dosbarth.

**Iechyd a Lles**

- Parhau i ddatblygu ein ffitrwydd a gwella ein sgiliau gymnasteg.
- Ymarfer sgiliau llawdriniol manwl.
- Mwynhau profiadau newydd yn ystod sesiynau Ysgol Goedwig ac wrth fynd ar ymweliadau amrywiol.
- Trafod rheolau'r ysgol a thrafod sut i fod yn ddinasyddion cyfrifol.
- Deall ein rôl a'n cyfrifoldebau o fewn cymuned Abertawe.
- Trafod ein teimladau a sut y dylid trin eraill.
- Gwneud penderfyniadau ynglyn â'n gwaith, fel unigolyn ac fel aelod o grŵp.

**Y Dyniaethau**

- Dysgu am ein **cynefin** ac am ddinas Abertawe
- Dysgu am hanes a datblygiad parc Brynmill a pharciau Abertawe.
- Trafod ac astudio nodweddion naturiol a dynol amlycaf dinas Abertawe.
- Datblygu ein sgiliau mapio.
- Dysgu am draddodiadau Nadolig a pham fod y Nadolig yn bwysig i Gristnogion.
- Astudio addoldai'r ardal ac ymweld a gwahanol addoldai.
- Archwilio amrywiaeth diwylliannol cymuned Abertawe.

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

- Defnyddio ystod o offer cyfrifiadurol yn ddiogel.
- Datblygu sgiliau rhoi cyfarwyddiadau i degan rhaglenadwy.
- Dysgu am briodweddau deunyddiau.

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

- Creu cornel chwarae rôl wedi ei selio ar un o fusnesau'r ardal e.e. siop goffi, siop neu siop bobydd. (Bydd y plant yn cael dewis.)
- Darllen a gwrando ar amrywiaeth o straeon a barddoniaeth.
- Dal ati i ddatblygu ein sgiliau darllen.
- Mwynhau ysgrifennu mewn pob math o ddulliau gwahanol, gan ganolbwyntio ar ysgrifennu **ffeithiol, mynegi barn a dwyn perswâd a llythyr.**
- Parhau i ymarfer ein sgiliau sillafu a dysgu ffurfio llythrennau yn gywir.

Bydd bwydlen gwaith cartref yn cael ei rannu gyda'r plant. Gweler y cyfarwyddiadau ar dudalen y dosbarth ar wefan yr ysgol.
Dosbarth yr Wylan- Mrs C Williams | Ysgol Gymraeg Bryn y Mor (yggbrynymor.co.uk)

**Mathemateg a Rhifedd**

- Ymarfer cyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau .
- Ymarfer a gwella sgiliau adio, tynnu i ffwrdd a lluosi.
- Defnyddio arian, ymarfer ein sgiliau mesur ac astudio siâp.
- Chwarae llawer o gemau mathemateg pen.
- Casglu data a'i gyflwyno.